# LLANISHEN AND LISVANE RESERVOIRS

This is not a circular
Owner/Occupier

December 2019
CAP/GT/Llanishen/1219

## HELLO

Welcome to the our latest update on the work we've been doing to restore Llanishen and Lisvane reservoirs to their former glory.

It's been a busy few months on the site and we hope you found the information on all that we've been doing useful.

## LLANISHEN CREST FENCING REMOVED

Over the course of the past few months, some of you may have noticed a significant change to the view across Llanishen – namely that the palisade fence which used to enclose the reservoir has now been removed. Since we took over the site, we had always been clear of our intention to remove this fence as soon as we could because it would not fit a purpose for us in the operation of the reservoirs. With the repair work of Llanishen reservoir complete and the reservoir now being allowed to refill again, we felt the time was right to removed the fence so our contractors set to work on dismantling it. Stretching a distance of 2km, it was no easy task and one which also had to be done carefully so as to ensure no damage to any of the sites precious ecology.





## NANT FAWR WATER MAIN STARTS FLOWING

As you will be aware, while we have been working on restoring the reservoirs, we also took the opportunity to upgrade the water main which runs to the east of the site, through Nant Fawr woods. The main, which had been decommissioned, was brought back to life after we installed a brand new one in its place. The pipe will now play a crucial role in improving the resilience of the drinking water system which serves the capital.

We were disappointed that some engineering difficulties meant that the project ran over and were very sorry for the inconvenience caused because the work meat we had to close part of the path through the woods longer than originally stated. The work though has now been completed and the area fully reinstated so that people can again enjoy this beautiful part of the city.



## NEW POWER SUPPLY INTO SITE

To ensure we can operate the reservoir site effectively in the future, it was identified that we would need to install a new power supply to the site. Western Power were commissioned to carry out the work which did involved the temporary closure of the path off Rhyd y Pennau road to the site over two weekends. The work was completed successfully and we would like to thank people for their cooperation while the path was closed.

## COMING WEEKS

Over the course of the coming weeks, we'll be focusing more attention on the plan for refilling Llanishen reservoir which at present is filling from rainwater and nearby streams. Our plans involve the construction of a refill pumping station which will be used to assist in the filling of Llanishen Reservoir by allowing us to switch between local watercourses and Lisvane reservoir. We'll bring you further updates on this in our next edition.

## FUTURE FACILITIES

While we've been working hard to restore the reservoirs, we have also been busy continuing to develop plans for public access and recreation in the future. It's been great to receive so many suggestions from people in the local area about the kinds of facilities they'd like to see at the site, which include water sports – especially sailing, canoeing, kayaking, open water swimming; fishing; walking and running routes, dog walking and a café. We hope to be able to finalise proposals in the new year. So if you still haven't let us know what you would like to see and do at the site then there is still time...Please drop us a line at lisvaneandllanishen@dwrcymru.com

# CRONFEYDD DŴR LLANISIEN A LLYS-FAEN

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

Rhagfyr 2019
CAP/GT/Llanishen/1219

## HELO 'NA

Croeso i'n newyddlen ddiweddaraf am y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud i adfer cronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen i'w hen ogoniant.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai prysur iawn ar y safle, a gobeithio bod y wybodaeth am ein gwaith wedi bod yn ddefnyddiol i chi.

## TYNNU FFENSYS YN LLANISIEN

Dros y misoedd diwethaf, mae'n siŵr bod rhai ohonoch chi wedi sylwi bod newid sylweddol yn yr olygfa dros gronfa Llanisien – am ein bod ni wedi tynnu'r ffens palisâd a oedd yn arfer amgylchynu'r gronfa i lawr. Rydyn ni wedi bod yn glir am ein bwriad i dynnu'r ffens yma cyn gynted â phosibl ers i ni gymryd meddiant o'r safle am na fyddai'n cyflawni unrhyw bwrpas i ni wrth i ni weithredu'r cronfeydd. Am ein bod ni wedi cwblhau'r gwaith trwsio ar gronfa ddŵr Llanisien, a'n bod bellach mewn sefyllfa i'w hadlenwi, roedden ni'n teimlo bod yr amser wedi dod i dynnu'r ffens, ac felly aeth ein contractwyr ati i'w datgymalu. Nid ar chwarae bach oedd tynnu 2km o ffensys, ac roedd angen cyflawni'r gwaith yn ddiogel er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw effaith andwyol ar ecoleg werthfawr y safle.





## PRIF BIBELL DDŴR NANT FAWR YN DECHRAU LLIFO

Fel y gwyddoch, wrth i ni weithio i adfer y cronfeydd, fe fanteision ni ar y cyfle i uwchraddio'r brif bibell ddŵr sy'n rhedeg i'r dwyrain o'r safle trwy goedwig Nant Fawr hefyd. Mae'r bibell, a oedd wedi cael ei dadgomisiynu, wedi cael ei gweithredu o'r newydd ar ôl i ni osod pibell newydd sbon yn ei lle. Bydd y bibell yn chwarae rhan hanfodol wrth wella gwytnwch y system dŵr yfed sy'n gwasanaethu'r brifddinas.

Oherwydd problemau peirianegol, cafodd y prosiect ei gyflawni'n hwyrach na'r disgwyl, oedd yn destun cryn siom i ni, ac roeddem ni'n flin iawn am yr anghyfleustra a achoswyd am y bu angen cau rhan o'r llwybr trwy'r goedwig am gyfnod hirach nag yr oeddem wedi ei ddweud yn wreiddiol. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn hyn, ac mae'r ardal wedi cael ei hadfer yn llwyr fel y gall pobl fwynhau'r rhan brydferth yma o'r ddinas.



## CYFLENWAD PŴER NEWYDD I'R SAFLE

Er mwyn sicrhau y gallwn weithredu safle'r gronfa'n effeithiol yn y dyfodol, nodwyd bod angen sefydlu cyflenwad pŵer newydd i'r safle. Comisiynwyd Western Power i gyflawni'r gwaith, a oedd yn golygu cau'r llwybr sy'n cysylltu'r safle â Heol Rhyd y Pennau dros ddau benwythnos. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn, a hoffem ddiolch i bawb am eu cydweithrediad yn ystod y cyfnod pan oedd y llwybr ar gau.

## YR WYTHNOSAU NESAF

Dros yr wythnosau nesaf, byddwn ni'n canolbwyntio ar y cynllun i adlenwi cronfa ddŵr Llanisien, sy'n cael ei llenwi â dŵr glaw a nentydd lleol ar hyn o bryd. Mae ein cynlluniau'n cynnwys adeiladu gorsaf bwmpio adlenwi a gaiff ei defnyddio i helpu i lenwi Cronfa Ddŵr Llanisien trwy ganiatáu i ni amnewid rhwng y cyrsiau dŵr lleol a chronfa ddŵr Llys-faen. Byddwn ni'n rhannu newyddion pellach am hyn â chi yn y rhifyn nesaf.

## CYFLEUSTERAU'R DYFODOL

Wrth i ni weithio'n galed i adfer y cronfeydd dŵr, rydyn ni wedi bod yn brysur hefyd yn parhau â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau i sicrhau mynediad i'r cyhoedd a chyfleusterau hamdden yn y dyfodol. Mae hi wedi bod yn hyfryd cael cynifer o awgrymiadau gan bobl yn yr ardal leol am y mathau o gyfleusterau y maen nhw am eu gweld ar y safle, sy'n cynnwys chwaraeon dŵr - yn enwedig hwylio, canŵio, caiacio, nofio dŵr agored; pysgota; llwybrau cerdded a rhedeg, lle i fynd a'r ci am dro a chaffi. Rydyn ni'n gobeithio cwblhau'r cynigion yn y flwyddyn newydd felly os nad ydych chi wedi rhoi gwybod i chi beth rydych chi am ei weld a'i wneud ar y safle, yna mae amser i wneud hynny o hyd... Cysylltwch â ni yn lisvaneandllanishen@dwrcymru.com